Cyngor Tref Frenhinol Caernarfon

Cofnodion Pwyllgor Adloniant, 27/07/21 – Cyfarfod Rhithiol

Yn bresennol: Y Cynghorwyr D.L.Jones, E.Lovgreen (Is-gadeirydd – yn y Gadair), M.Sarnacki

---

1.Cadeirydd

Penderfynwyd ethol y Cynghorydd E.R.Hughes yn Gadeirydd y Pwyllgor Adloniant ar gyfer 2021/22 (unfrydol).

2. Is-gadeirydd

Penderfynwyd ethol y Cynghorydd E.Lovgreen yn Is-gadeirydd y Pwyllgor Adloniant ar gyfer 2021/22 (unfrydol).

3.Ymddiheuriadau

Y Cynghorwyr W.L.Davies, A.Hopcyn, E.R.Hughes, K.Jones, R.Thomas

4. Datgan Buddiant Personol

Dim

5.Eitemau Brys (Cadeirydd/Clerc)

Noson Tân Gwyllt

Nododd y Clerc bod angen penderfyniad ar y ffordd ymlaen o ran Noson Tân Gwyllt eleni yn sgil Covid-19. Roedd y Cyngor Llawn wedi penderfynu ei fod yn hapus i ddigwyddiadau gymryd lle, os yn cydymffurfio gyda chanllawiau Llywodraeth Cymru. Gan hynny bydd yn cysylltu efo'r Llewod i weld os oeddynt yn gallu cynnal y digwyddiad yn y ffordd arferol, ac yn cysylltu gyda Rheolwr Digwyddiadau Cyngor Gwynedd.

Nodwyd y dylid cysylltu efo siopau fel Morrisons a Tesco i ofyn iddynt ddim ond gwerthu tân gwyllt ar gyfnodau penodedig, gan fod pobl yn eu gollwng i ffwrdd dros gyfnod estynedig.

6. Cystadleuaeth Garddio

Cyflwynwyd adroddiad y Clerc yn rhoi diweddariad ar yr uchod.

Nododd y Clerc:

(1) Bod y Pwyllgor Adloniant wedi trafod y Gystadleuaeth Garddio yn ei gyfarfod ar 23ain o Fawrth ac wedi penderfynu fel a ganlyn:

“Penderfynwyd:

(1) Argymell i'r Cyngor Llawn bod y Gystadleuaeth Garddio yn digwydd ar yr wythnos yn dechrau'r 19eg o Orffennaf.

(2) Dylid gohirio'r gystadleuaeth i ysgolion tan 2022 oherwydd Covid-19.

(3) Derbyn yr opsiynau yn y pwyntiau bwled canlynol er mwyn darparu argymhellion i'r Cyngor Llawn yn ei gyfarfod ar y 6ed o Ebrill:

- **Cadw'r 4 ward fel y maent, a chadw'r Cwpan Pensiynwr hefyd.**
- **Newid y categori ar gyfer cwpan Her Frongoch a'r Cwpan Her gan eu bod yn debyg iawn, ac mae'r ddau ar gyfer enillwyr cyffredinol.**
- **Ar gyfer 2022, un opsiwn fyddai defnyddio'r Cwpan Her fel yr un ar gyfer yr ysgolion, a'i alw'n Gwpan Her yr Ysgol, a Chwpan Frongoch ar gyfer yr ardd gorau gan aelod o'r cyhoedd.**
- **Bod y Lawnt Orau i aros yr un peth.**
- **Ail-enwi'r Ardd Fach Orau (Cwpan Trefor Jones) fel gofod bach (gardd neu iard)**
- **Basgedi crog a thybiau gorau.**
- **Basgedi / gardd fasnachol orau i gynnwys Gwely a Brecwast efallai hefyd ystyried creu cystadleuaeth gardd gefn?**
- **Anelu at gael y datganiad i'r wasg allan ar gyfer mis Ebrill, a cheisiadau allan yr un amser. Ystyried gofyn i gyn-enillwyr roi dyfyniad bach i helpu i hyrwyddo'r gystadleuaeth.**
- **Ystyried Categori “Canmoliaeth Uchel”.**

(4) Y dylid creu “flyer”, efo'r holl fanylion am y Gystadleuaeth Garddio, gyda dyddiad cau, a gofyn am wirfoddolwyr i fynd â nhw o amgylch yr holl dai yn y dref.”

(2) Bod yr adroddiad hwn yn ddiweddariad.

(3) Y gwnaethpwyd 4,000 copi o'r “flyer”, a dosbarthwyd copi i bob cartref yng Nghaernarfon. Diolch i bawb a fu'n cynorthwyo efo hyn.

(4) Bod Peter Garlick wrthi'n mynd o gwmpas yn beirniadu (wedi cychwyn ar yr wythnos yn cychwyn y 19eg o Orffennaf). Roedd y Cynghorydd Maria Sarnacki, fel Maer, wedi cytuno i feirniadu'r Gystadleuaeth Busnesau. Roedd Peter Garlick am feirniadu Gwely a Brecwast.

(5) Bod angen gofyn am enillwyr y llynedd i ddychwelyd eu cwpanau er mwyn dechrau meddwl am sut i wobrwyo enillwyr y flwyddyn hon.
(6) Ei fod yn cyfarfod gyda Peter Garlick ar yr 28ain o Orffennaf.
(7) Bod Peter Garlick wedi cynnig cyflwyno cwpan ar gyfer y stryd orau.

Penderfynwyd (unfrydol):

(1) Y dylid edrych ar gategori "highly commended".
(2) Argymell i'r Cyngor Llawn y dylai'r Seremoni Gwobrwyo gymryd lle yn ystod mis Medi, fel Seremoni ar wahân i'r Cyngor Llawn, yn Ystafell Peblig, gan gydymffurfio gyda Rheoliadau Covid-19.
(3) Y dylid gofyn i Peter Garlick gyflwyno'r gwpan am y stryd orau, a diolch iddo am ei garedigrwydd.
(4) O 2022 y dylid creu categori Gardd Gymunedol, fyddai'n cynnwys lleoedd fel Plas Maesincla.

7. Sul y Cofio

Cyflwynwyd adroddiad llafar y Clerc yn dechrau cynllunio ar gyfer Sul y Cofio.

Penderfynwyd argymell y dylai Sul y Cofio cymryd lle mor agos ag oedd bosib i'r drefn arferol, os yw'n cydymffurfio gyda chanllawiau Llywodraeth Cymru o ran Covid-19 (unfrydol).

8. Tendr Goleuadau Nadolig

Cyflwynwyd adroddiad llafar y Clerc yn dechrau cynllunio ar gyfer y tendr Goleuadau Nadolig.

Nododd y Clerc:

(1) Bod y 3 cwmni wedi gwneud cyflwyniad o flaen y Panel (y Cynghorwyr Cemlyn Williams, Ann Hopcyn, Eiriona Hughes a Maria Sarnacki a'r Clerc) ar y 24ain o Fehefin. Sgoriwyd y tendrau yn fanwl o ran cost (30%), ansawdd (20%), ystyriaethau eraill (20%) a'r cyflwyniad (30%).
(2) Bod y Panel wedi argymell Lite Ltd fel y cwmni buddugol i ddarparu'r Goleuadau Nadolig i'r Cyngor Tref rhwng 2021 - 23, a bod hyn wedi ei gymeradwyo gan y Cyngor Llawn.
(3) Bydd yn cyfarfod cynrychiolydd o Lite Ltd ar yr 28ain o Orffennaf.
(4) Mai un peth oedd angen ei sortio oedd pwysau'r goeden ar Turf Square.

Penderfynwyd nodi'r uchod, a gofyn i'r Clerc anfon y ffeiliau electronig o ran y tendr buddugol i'r aelodau (unfrydol).

Gorffennodd y cyfarfod am 6.30 p.m.

Arwyddwyd _____

Dyddiad _____